| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **6 Mehefin 2024** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Gill German (Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc), Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Awdur yr Adroddiad** | **Geraint Davies (Pennaeth Addysg)** |
| **Teitl** | **Adroddiad Arolygu Estyn 2018** |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am y camau a gymerwyd yn dilyn Arolwg Estyn o Wasanaethau Addysg Sir Ddinbych ym mis Chwefror 2018.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Bwriad yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth am y gwaith a wnaed yn dilyn cyhoeddiad yr Adroddiad Arolygu ar Wasanaethau Addysg yn Sir Ddinbych.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Gwahoddir craffu i drafod manylion yr adroddiad hwn ac i ystyried a gwblhawyd yr holl gamau posibl i fynd i'r afael â'r argymhellion yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol yn dilyn y Pandemig.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Estyn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod holl ysgolion Cymru y gorau y gallant fod. Gweledigaeth Estyn yw gwella ansawdd addysg a hyfforddiant a'r canlyniadau ar gyfer pob dysgwyr yng Nghymru.

Sefydlwyd Estyn fel un o gyrff y Goron o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ond fe'i ariennir gan Lywodraeth Cymru (o dan Adran 105 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998)

4.2 Cafodd Sir Ddinbych ei arolygu gan Estyn ym mis Chwefror 2018 gyda'r arolwg cyn hynny yn 2012. Ar y pryd roedd y Prif Weithredwr yn ei swydd ers mis Ebrill 2009 a'r Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant yn ei swydd ers mis Ionawr 2010. Roedd arweinydd y Cyngor wedi bod yn ei swydd ers mis Tachwedd 2007 a phrif ddeilydd portffolio'r Ggwasanaethau Addysg wedi bod yn ei swydd ers mis Mai 2017.

4.3 Roedd arolwg Estyn 2018 yn adrodd ar 3 Maes Arolygu:

- Canlyniadau
- Ansawdd y Gwasanaethau Addysg
- Arweinyddiaeth a Rheoli

4.4 Mae copi o'r adroddiad arolygu i'w weld yn **Atodiad 1** a'r adroddiadau blaenorol ar wefan Estyn. Dyfarnodd yr Arolygwyr fel a ganlyn:

| Maes Arolygu | Dyfarniad |
|---|---|
| **Canlyniadau** | **Da** |
| **Ansawdd y gwasanaethau addysg** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheoli** | **Rhagorol** |

4.5 Un o ganlyniadau'r Arolwg oedd gwahoddiad i Sir Ddinbych baratoi astudiaeth achos i'w roi ar wefan Estyn ar sut y mae'r awdurdod wedi cyfuno'r gwasanaethau addysg a phlant yn effeithiol ac effaith hynny ar ddarpariaeth a chanlyniadau

4.6 Yn dilyn arolwg bydd Estyn yn gwneud nifer o argymhellion ar feysydd sydd angen eu gwella a disgwylir i ddarparwyr fynd i'r afael â'r rhain. Derbyniodd Sir Ddinbych 2 argymhelliad

- A1 Lleihau'r amrywioldeb mewn canlyniadau mewn ysgolion uwchradd.
- A2 Sicrhau bod y gwerthusiad o wasanaethau'n canolbwyntio'n glir ar fesur y canlyniadau y mae plant a phobl ifanc yn eu cyflawni trwy'r gwasanaethau hynny

**ARGYMHELLIAD 1:**

4.7 Y sail dros yr argymhelliad hwn oedd er gwaethaf perfformiad cyson gryf yn gyffredinol, roedd perfformiad ysgolion uwchradd unigol wedi bod yn amrywiol dros y tair blynedd ddiwethaf. Cyn y Pandemig gwnaed gwaith gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol i roi sylw i'r argymhelliad hwn. Ym mis Mawrth 2020 newidiodd y byd gyda'r ysgolion dan gyfnodau clo.

4.8 Ni allwn adrodd ar y lefelau presennol yr amrywioldeb rhwng canlyniadau ysgolion uwchradd gan fod y gyfarwyddeb gan Lywodraeth Cymru yn glir: **(Atodiad 2)**

*"……oherwydd y gwahanol drefniadau asesu a'r graddio sydd wedi digwydd o ganlyniad i effeithiau parhaus y pandemig, mae'n bwysicach fyth ein bod ni* ***yn osgoi gwneud unrhyw gymariaethau â chanlyniadau blynyddoedd eraill, naill ai ar lefel genedlaethol, rhanbarthol neu ysgol****………….. Ni ddylid defnyddio Setiau Data Craidd Cymru Gyfan i farnu neu i gymharu ysgolion, ac ni ddylid eu defnyddio i lywio penderfyniadau nad ydynt er lles gorau dysgwyr"*

4.9 Yn 2018 nododd Estyn ormod o amrywioldeb yng nghanlyniadau ysgolion uwchradd Sir Ddinbych. Mewn partneriaeth â GwE mae'r awdurdod lleol yn gweithio i sicrhau canlyniadau o ansawdd da i bob dysgwr. Clustnodir Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant sy'n gweithio gydag uwch arweinwyr ysgolion i'w cefnogi nhw i werthuso eu perfformiad ac i ddynodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Caiff y blaenoriaethau gwella hyn wedyn eu hehangu'n gynllun datblygu ysgol. Mae'r awdurdod lleol a GwE yn darparu cynlluniau cefnogi wedi'u teilwra'n arbennig ar gyfer pob ysgol uwchradd yn dibynnu ar y blaenoriaethau gwella a ddynodir yn eu cynlluniau datblygu,

4.10 Mae ysgolion erbyn hyn yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar y defnydd o ddata yn eu prosesau hunanwerthuso a gwella mewnol, yn hytrach nag ar gymharu data'n gyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i ysgolion ac awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth perfformiad i ddeall yn well eu cyd-destun eu hunain ac i ysgogi gwelliannau; ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun i farnu perfformiad nac i gymharu ysgolion

4.11 Mae swyddogion yr awdurdod lleol, ynghyd at Arweinwyr Craidd GwE, yn monitro perfformiad ysgolion mewn cyfarfodydd a gynhelir bob pythefnos. Caiff

meysydd perfformiad ysgol eu hystyried yn ystod y cyfarfodydd hyn. Yn dilyn cyhoeddiad y set data craidd, caiff hwn hefyd ei ystyried. Lle bo angen caiff camau gweithredu eu pennu ar gyfer ysgolion unigol sydd o bosibl angen cefnogaeth ychwanegol.

4.12 Bydd adroddiad diweddarach yn darparu data cymharol ar berfformiad cenedlaethol a pherfformiad cyffredinol ysgolion Sir Ddinbych. Mae gwaith ar y gweill i ystyried sut i atgyfodi'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion er mwyn bodloni gofynion y 'Canllaw Gwella Ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwelliant ac atebolrwydd' a fydd yn dod yn statudol ym mis Medi.

**ARGYMHELLIAD 2:**

4.13 Mae Argymhelliad 2 yn berthnasol i weithdrefnau a sefydlwyd i fonitro darpariaeth ar gyfer disgyblion a addysgir mewn lleoliadau y tu allan i'r sir ac mewn darpariaeth canolfannau adnoddau. Roedd yr arolygwyr yn 2018 yn teimlo nad oedd yr adroddiadau ar y darpariaethau y tu allan i'r sir yn canolbwyntio'n ddigonol ar gynnydd disgyblion

4.14 Ers 2018 cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r pryderon hyn fel a ganlyn:

- Cyfarfodydd Swyddogion Cynhwysiant Misol i adolygu cynnydd dysgwyr y tu allan i'r sir ac i sicrhau presenoldeb yn y ddarpariaeth.
- Mae staff yr Awdurdod Lleol yn mynychu adolygiadau blynyddol ar gyfer dysgwyr â datganiadau o ADY a Chynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer dysgwyr y tu allan i'r sir.
- Ail-sefydlu Panel Annibynnol i adolygu cynnydd gydag un darparwr y tu allan i'r sir.
- Mae staff yr Awdurdod Lleol yn cysylltu'n rheolaidd â darparwyr y tu allan i'r sir er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr unigol.
- Mae staff yr Awdurdod Lleol yn cysylltu'n rheolaidd a chydweithwyr Iechyd a staff yn y canolfannau adnoddau i drafod cynnydd dysgwyr.
- Mae dull olrhain wedi'i ddatblygu i gael trosolwg o'r holl ddysgwyr mewn darpariaethau y tu allan i'r sir.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Mae'r maes gwaith hwn yn cyfrannu at wneud sir Ddinbych yn lle iachach a hapusach ble mae pobl ifanc eisiau byw a gweithio a chanddynt y sgiliau i wneud hynny fel nodir o fewn y Pedwar Diben. Mae hefyd yn cyfrannu at wneud Sir Ddinbych yn lle ble gall pobl ifanc ddysgu a gwneud cynnydd da yn eu sgiliau a dysgu mewn amgylchedd teg a diogel. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod bob dysgwr yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn gallu gwireddu eu potensial llawn.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ni fydd ymateb i'r argymhellion yn cael fawr ddim effaith ar wasanaethau eraill. Bydd yr awdurdod lleol (ALl) yn parhau i drafod gyda GwE y defnydd o grantiau Llywodraeth Cymru i gefnogi'r maes gwaith hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Bydd angen Asesiad o Effaith ar Les fel arfer ar gyfer penderfyniadau neu gynigion ar gyfer newid er mwyn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Safonau'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu effaith cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Derbyniodd pob aelod etholedig gopi o'r adroddiad arolygu ar adeg ei gyhoeddi.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Bydd costau yn cael eu talu o gyllidebau sydd eisoes wedi'u dirprwyo i ysgolion, y gyllideb Addysg a hefyd cyllid grant a geir gan Lywodraeth Cymru.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau

10.1. Y prif risg yw y bydd Adolygiadau o Wasanaeth Addysgu yr Awdurdod Lleol yn y dyfodol yn negyddol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

Adrannau 7.3, 7.4.1 a 7.4.2 o Gyfansoddiad y Cyngor.